PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 7 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Caedeirydd)<br><br>Cynghorwyr Goddard, Hudson, Jacobsen, Mackie, Taylor, Wood a/ac Williams |

13 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Lancaster a'r Cynghorydd Murphy.

14 Datgan Buddiannau

Gwnaed datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Rhys Taylor, a ddatganodd diddordeb personol yn Eitem 4 gan ei fod yn gweithio i sefydliad sy'n ymgyrchu dros Ansawdd Aer,

15 Cofnodion

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a gynhaliwyd ar 5 Medi 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a gynhaliwyd ar 5 Medi 2017 a 3 Hydref 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

16 Ansawdd Aer yng Nghaerdydd - Adroddiad Cynnydd

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Tîm – yr Amgylchedd, Jason Bale, a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, Dave Holland, i'r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Ansawdd Aer yng Nghaerdydd ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Roedd y cyflwyniad yn llawn gwybodaeth, ac yn nodi'r 4 ardal Monitro Ansawdd Aer yn y ddinas. Holodd yr Aelodau a oedd gan y Cyngor unrhyw atebolrwydd o ran unrhyw afiechydon cysylltiedig ag iechyd o ystyried bod ansawdd yr aer yn y Ddinas wedi cael ei fonitro ers peth amser. Eglurodd y swyddogion fod dyletswydd ar y Cyngor i fonitro ac adrodd yn ôl; mae Strategaeth Aer Glân Caerdydd yn cyfuno nifer o bolisïau i fynd i'r afael â'r ddyletswydd hon. Fodd bynnag, nodwyd mai'r economi sydd wedi cael blaenoriaeth hyd yn hyn.
- Nododd yr Aelodau y cyfeiriad at geir trydanol ac ystyriwyd y dylai mwy o gerbydau fflyd y Cyngor fod yn drydanol ac y dylai fod mwy o bwyntiau gwefru o amgylch y Ddinas. Eglurodd swyddogion fod y Strategaeth Aer Glân yn codi'r materion hyn a bod trafodaethau ar waith â Llywodraeth Cymru ynghylch y seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r rhain. Ychwanegwyd bod gan y Llywodraeth ddyletswydd hefyd i weithio gyda Chaerdydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Eglurodd swyddogion fod yna gyfeiriad at y Parthau Aer Glân/Gwefru yn y Cynllun Gweithredu; ymgymerodd Defra ag arolwg cydymffurfio a nodwyd na fyddai Caerdydd yn cydymffurfio ar ôl 2020 a nodwyd yn glir mai'r unig ffordd o wella byddai gweithredu Parth Aer Glân; roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt â

Llywodraeth Cymru i ganfod sut y gellir ei weithredu.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at Heol y Porth a holwyd a oedd mwy o allyriadau ers cau'r Orsaf Fysys; ychwanegwyd bod preswylwyr wedi gweld gwahaniaeth amlwg. Nododd swyddogion yr effaith ar Heol y Porth ac eglurwyd bod cydweithwyr yn yr adran drafnidiaeth yn edrych ar wahanol ddewisiadau ar gyfer Heol y Porth cyn i'r Orsaf Bysys newydd agor.

- Nododd Aelodau fod dinasoedd eraill wedi cael grantiau i roi i gwmnïau i ddiweddaru eu cerbydau fflyd; nododd swyddogion fod y mwyafrif o'r grantiau wedi'u dyfarnu yn Lloegr. Mae swyddogion yng Nghaerdydd wedi trefnu cyfarfod â Defra gyda'r nod o wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn.

- Nododd Aelodau nad oedd defnyddio Heol y Porth, gyda'i hadeiladau uchel, yn ddelfrydol a gofynnwyd a oedd y lefelau'n debygol o ddychwelyd i'r lefelau blaenorol pan fydd yr orsaf fysys newydd yn agor; gan ofyn ymhellach a oedd methu â chael gorsaf fysys weithredol yn peryglu iechyd y bobl. Eglurodd swyddogion nad oedd National Express na Megabus yn defnyddio Heol y Porth ac roedd yn anodd profi mai cau'r orsaf fysys yn unig sydd ar fai am y lefelau uwch.

- Nododd Aelodau'r cynnig presennol am gyllid i ôl-ffitio 96 o fysys yn fflyd Bysys Caerdydd er mwyn iddynt gydymffurfio ag Euro 6 a gofynnwyd a oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill ar gyfer bysys trydanol neu hybrid. Eglurodd swyddogion mai penderfyniad Bysys Caerdydd oedd hwnnw, ond ar hyn o bryd, roedd diffyg seilwaith i'w gefnogi ac roedd trafodaethau ar waith yn ei gylch.

- Trafododd yr Aelodau y safleoedd monitro o amgylch ysgolion; dywedodd swyddogion fod Client Earth wedi nodi bod rhai o'r ysgolion a ddyfynnwyd yn yr astudiaeth wedi'u lleoli ymhellach i ffwrdd ac yn agosach at ffyrdd mewn gwirionedd. Roedd mwy o waith yn cael ei wneud gydag ysgolion i gynnal gwaith monitro eu hunain a chynnal ymgyrchoedd cerdded i'r ysgol. Nodwyd bod canllawiau'r polisi newydd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyfrifoldeb clir ar y Cyngor i ymgysylltu â chymunedau yn fwy rhagweithiol ynghylch Ansawdd Aer. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gychwyn.

- Gofynnodd Aelodau a allai'r datblygiad o amgylch yr orsaf fysys waethygu lefelau'r allyriadau, gyda'r cynnydd mewn cerbydau trwm. Dywedodd y swyddogion fod asesiadau ar wahân yn cael eu cynnal ynghylch yr elfen gwaith adeiladu o'r traffig. Byddai gan adeilad y BBC ychydig iawn o lefydd parcio, fel y byddai gan y Swyddfa Dreth, a disgwylir y byddai'r mwyafrif yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ni fyddai gan ddatblygiad Windsor House na'r llety i fyfyrwyr ar Knox Road lefydd parcio pwrpasol.

Ychwanegodd swyddogion ymhellach fod yr effaith ar lefelau'r allyriadau yn cael ei hachosi gan y traffig presennol.

- Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw ffigurau cymharol ar gyfer Lloegr mewn perthynas â marwolaethau. Eglurodd Swyddogion fod y ffigurau marwolaeth yn rhai ledled y DU ac roedd y ffigurau'n cyfeirio at farwolaethau - nid lefelau'r allyriadau oedd yn gwbl gyfrifol. Y ffigur oedd 50,000 y flwyddyn ledled y DU. Nid oedd ffigurau cymharol, ond nododd swyddogion fod 27 awdurdod lleol arall ac eithrio Caerdydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gweithredu y DU.

- Gofynnodd Aelodau a oedd safle depo trenau Treganna yn cael ei fonitro a

dywedwyd wrthynt nad oedd hynny'n digwydd; nid yw'r Cyngor yn monitro gweithleoedd.

- Gofynnodd Aelodau a oedd y tiwbiau AQM yn weladwy a dywedwyd wrthynt eu bod yn weladwy. Maent yn cael eu rhoi ar beipiau glaw, pyst lampau neu ochrau tai.

- Holodd Aelodau a ellir rhoi rhybuddion Monitro Iechyd y Cyhoedd o amgylch y Ddinas. Eglurodd swyddogion y byddai rhybuddion yn cael eu rhoi os yw ansawdd yr aer yn wael – arwyddion amrywiol yn dweud, er enghraifft, a oes angen i chi yrru heddiw?

- Gofynnodd Aelodau a oedd arafu traffig yn y Ddinas yn cyfrannu at gynnydd yn lefelau allyriadau gan fod angen i gerbydau arafu a chyflymu eto. Derbyniodd swyddogion y pwynt hwn a nodwyd na fyddai gan y parthau 20mya newydd dwmpathau cyflymder am y rheswm hwn.

Gwnaed ac eiliwyd cynnig i gynnwys nodyn yn y cofnodion i nodi bod 'rhaid i'r Cyngor wneud mwy i wella Rheoli Ansawdd Aer yn y ddinas gan fod y Cyngor wedi methu mewn rhai meysydd hyn yn hyn.'

Cynhaliwyd pleidlais a chafodd ei chefnogi yn unfrydol (*Eithriodd y Cynghorydd Rhys Taylor ei hun o'r bleidlais gan ei fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon)*

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y cyfrifoldeb dros ystyried dyletswydd unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli Ansawdd Aer yn swyddogaeth 'dewis lleol', sy'n golygu y gall y Cyngor ddewis p'un a yw'n cael ei gynnal gan Bwyllgor neu'r Cabinet. Hyd yn hyn, neilltuwyd y cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd.

Ym mis Mehefin 2017, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau polisi newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â rheoli ansawdd yr aer yn lleol. Wrth wraidd y canllawiau newydd mae gofyniad i awdurdodau lleol ddilyn y pum ffordd o weithio, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), wrth reoli ansawdd yr aer yn lleol. Golyga hyn fod angen cynllunio ar gyfer y tymor hir, integreiddio polisïau a all effeithio ar ansawdd aer, cynnwys pobl, cydweithio ag eraill ac atal problemau rhag gwaethygu neu rhag codi yn y lle cyntaf. Golyga hyn fod rhaid i'r broses o reoli ansawdd yr aer yn lleol gwmpasu mwy na dim ond swyddogaethau statudol yr Awdurdodau Lleol dan Ran IV Deddf 1995. Rhaid cyfuno'r broses o gyflawni'r swyddogaethau hynny yn gywir â rheoli'r defnydd o dir a chynllunio trafnidiaeth, yn ogystal â chyflawni unrhyw weithgareddau eraill sy'n berthnasol i ansawdd yr aer yn lleol.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y Cynghorwyr Elsmore, Wild a Michael yn cyfarfod yn rheolaidd i geisio deall yr effaith ar draws y portffolios a sut y mae'r Cyngor yn ymdrin â hi.

Cynigiwyd i roi'r cyfrifoldeb dros y swyddogaeth Ansawdd Aer i'r Cabinet er mwyn iddo fod yn gwbl integredig â'r Cynllun Datblygu Lleol a materion Datblygu Cynllunio. Byddai Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd yna'n ymgynghorai. Byddai Pwyllgor y Cyfansoddiad yn ystyried yr adroddiad a bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu a fyddai Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd yn cadw'r cyfrifoldeb neu a fydd yn mynd i'r Cabinet.

Trafododd yr Aelodau'r cynnig hwn am beth amser.

PENDERFYNWYD: Roedd Aelodau’n pryderu y gallai symud y swyddogaeth fonitro o Bwyllgor Diogelu’r Cyhoedd i’r Cabinet wrthdaro buddiannau ac ystyriwyd y dylai barhau fel swyddogaeth annibynnol.  Ystyriodd Aelodau y dylai Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd gael yr adroddiadau cynnydd i gychwyn cyn iddynt fynd at y Cabinet, ac y dylai hefyd gael adborth ar ôl y Cabinet.